catalog a gyhoeddodd yn 1904 sy' ar gadw yn Llyfrgell Casnewydd fe welwch chi gymaint o gyfraniad a wnaeth Southall.

Cyhoeddodd sawl cyfres o lyfrau darllen dwyieithog i blant, *Llyfrau Darllen y Cymro Bach, Cymraeg i'r Safonau*, ynghyd â llyfrau i blant hŷn ar hanes a thraddodiadau Cymru, er enghraifft, *Ein Gwlad* a *Hanes a Chân*. Hefyd nifer o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar iaith a llenyddiaeth Cymru, *Y Wenhwyseg, Priod ddulliau'r Gymraeg* a *Chywyddau Goronwy Owen* er enghraifft.

Roedd Southall yn daer dros geisio sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg, ac yn fwy felly mae'n debyg am iddo fod yn dyst i ddirywiad yr iaith yn Sir Fynwy. Yn ogystal â llyfrau i ysgolion, cyhoeddodd nifer o'i weithiau ef ei hun yn dadansoddi sefyllfa'r Gymraeg, ac un o'i draethodau a enillodd wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd 1897.

Bum mlynedd cyn hynny roedd Southall wedi cyhoeddi *Wales and her Language* sef dadansoddiad o sefyllfa'r Gymraeg o safbwynt hanesyddol a chymdeithasol. Dilynwyd hwn gan ddau lyfr Saesneg arall oedd yn dadansoddi Canlyniadau Cyfrifiad Iaith 1891 a 1901.

* * *

ERBYN troad y ganrif pan oedd Southall yn cyhoeddi'r wybodaeth yma roedd safle'r Gymraeg wedi dirywio i'r fath raddau yn Sir Fynwy fel mai dim ond yn Rhymni yng nghornel eithaf gogleddol orllewin y sir yr oedd 'na gymdeithas lle roedd y Cymry Cymraeg yn y mwyafrif.

Mewn mannau eraill roedd yr ystadegau ieithyddol yn rhai torcalonnus a'r darlun o gawn gan Southall yw un o ddirywiad ymhob agwedd o'r bywyd Cymraeg gan gynnwys y byd cyhoeddi. Mewn pamffled arall a oedd yn trafod dyfodol addysg yng Nghymru tynnai Southall sylw at gyn lleied o gefnogaeth oedd i'r wasg Gymraeg yn Sir Fynwy erbyn hynny (mil naw cant).

> *Mae'r mewnlifiad Saesneg wedi rhoi taw ar ddysgeidiaeth Gymraeg meddai. Yng nghymoedd Sir Fynwy mae gwerthiant llenyddiaeth Gymraeg wedi lleihau i'r fath raddau fel mai cyfran fechan iawn o'r boblogaeth sy'n darllen Cymraeg erbyn hyn.*

Mae'n wir mai ychydig o lyfrau Cymraeg oedd yn cael eu cyhoeddi yn Sir Fynwy erbyn troad y ganrif. Yr eithriadau oedd y llyfrau a gyhoeddwyd gan wasg Southall ei hun yng Nghasnewydd a'r rheini a gyhoeddwyd gan y brodyr Owen yn y Fenni a gwasg Jacobs yn Rhymni a Thredegar Newydd.

Daeth y ddau frawd, Owen John Owen ac Edwin Vaughn Owen i'r Fenni o Ddolgellau yn 1899. Gwnaeth y ddau gyfraniad pwysig i fywyd diwylliannol yr ardal, yn ogystal â chyhoeddi nifer o lyfrau Cymraeg o bwys cenedlaethol. 'Wy' ddim yn hollol siwr, ond 'wy'n meddwl mai yma y cyhoeddwyd cyfrolau Eluned Morgan am Batagonia ar droad y ganrif.

Yn Rhymni roedd Gwasg George Jacobs, gŵr a fwriodd ei brentisiaeth yn Llanelli, Aberdâr, Casnewydd a Chaerdydd gyda llaw, yn cyhoeddi llyfrau Cymraeg, pethau o ddiddordeb lleol yn bennaf ond hyd yn oed yn Rhymni, Saesneg oedd iaith mwyafrif cynnyrch y wasg.

* * *

FELLY, cafwyd dirywiad yng nghynnyrch y wasg Gymraeg wrth i'r iaith gilio o'r tir. Tra ffynnai'r iaith byddai'r wasg hithau'n llewyrchus, ond wrth i bobl Sir Fynwy golli'r iaith nychodd y wasg.

Oedd, roedd 'na lai o bobl a fedrai ddarllen Cymraeg yn rhugl, ond nid dyma'r unig reswm pam y cafwyd llai o gefnogaeth i'r wasg Gymraeg wrth i'r Cymry ddysgu Saesneg. Hyd yn oed pan oedd y wasg Gymraeg yn ei hanterth yn sir Fynwy roedd 'na arwyddion nad oedd popeth yn argoeli'n dda i'r dyfodol.

> *Peiriant yw'r wasg sy'n peri — Gwir addysg, gwareiddiad goleuni.*

medde Ieuan Gwynedd ac roedd ganddo fe yn anad neb ddiddordeb yn y wasg fel cyfrwng i addysgu'r genedl.

Gweinidog a oedd hefyd â diddordeb mewn newyddiadura oedd y Parch Evan Jones, neu Ieuan Gwynedd a fu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn Saron Tredegar am gyfnod yn ystod y 1840au cyn y bu rhaid iddo roi'r gorau i'w ddyletswyddau yno oherwydd afiechyd yn 1847.

Yn yr un flwyddyn y cyhoeddwyd Adroddiad Addysg y Llyfrau Gleision ac er gwaetha'i afiechyd aeth Ieuan Gwynedd ati yn llawn sêl i amddiffyn cymeriad y Cymry yn wyneb yr ymosodiadau a wnaed ar eu crefydd a'u hiaith gan y tri chomisiynydd o Loegr.

Defnyddiodd y wasg i'r eithaf er mwyn ateb y cyhuddiadau a wnaed fod y Cymry'n genedl farbaraidd, ddigrefydd a diaddysg. Roedd Ieuan Gwynedd yn nodweddiadol o'r gweinidogion llengar oedd yn yr ardal yn y cyfnod, ac roedd ei agwedd at y wasg yn nodweddiadol hefyd.

Y gair allweddol yn y dyfyniad yw'r gair 'gwareiddiad' — 'Peiriant yw'r wasg sy'n peri gwir addysg, gwareiddiad goleuni' oherwydd fel Nefydd, Thomas Rees a'r lleill a enwais, roedd Ieuan Gwynedd yn gweld y wasg fel cyfrwng i addysgu, moesoli, goleuo neu wareiddio poblogaeth anystywallt yr ardal ddiwydiannol newydd.

Ond a oedd angen gwareiddio'r boblogaeth hon?

* * *

ROEDD y cymoedd diwydiannol wedi datblygu'n gyflym heb fawr o drefn a'r boblogaeth weithfaol yn ansefydlog ac yn symudol iawn. Roedd 'na dipyn o anfodlonrwydd ymhlith cyfran helaeth iawn ohonyn nhw oherwydd yr amodau byw a gweithio gwael a'r modd yr ecsploetiwyd eu llafur gan y perchenogion a'r contractwyr.

*The Black Domain* oedd disgrifiad Comisiynwyr 1847 o gymoedd gweithfaol Gwent, ac er bod agwedd y Comisiynwyr yn sarhaus a digydymdeimlad at ddiwylliant cynhenid y boblogaeth roedd 'na dipyn o wirionedd yn yr hyn yr oedden nhw'n ei ddweud, ac roedd Ieuan Gwynedd a'i gyd weinidogion yn gwybod hynny yn rhy dda.

Yn sicr roedd y ddarpariaeth addysgol yn wael, gydag ychydig iawn o blant yn derbyn addysg yn gyson. Gwnaed y cyfraniad mwyaf yn y cyfeiriad hwn gan yr Ysgolion Sul, ac yn wir, yn eu hadroddiad mae'r Comisiynwyr yn talu teyrnged i gyfraniad Ysgolion Sul y Capeli Cymraeg fu'n dysgu pobl i ddarllen — Saesneg yn ogystal â Chymraeg cofiwch.

Wrth gwrs, safbwynt Saeson dosbarth canol a gawn ni yn yr adroddiad, ond nid sylwebyddion y llywodraeth oedd yr unig bobl a oedd yn gresynu at gyflwr addysg ymhlith y dosbarth gweithiol — roedd aelodau dosbarth canol y maes glo — y gwŷr busnes, swyddogion y gweithfeydd, yr offeiriaid a'r gweinidogion hefyd yn ofni beth fyddai canlyniad cael poblogaeth weithfaol anllythrennog.

Cofier bod yr ymdrechion cynta' i hyrwyddo addysg yn y cymoedd wedi digwydd yn sgil yr ofn a grewyd gan wrthryfel y Siartwyr yn 1839. Oedd, roedd y gweinidogion a'r offeiriaid fel ei gilydd er gwaetha gwahaniaethau o ran iaith a chrefydd, yn gytûn bod angen mynd ati ar fyrder i addysgu a chrefyddoli'r dosbarth gweithiol, ac un o'r cyfryngau pwysicaf er mwyn gwneud hynny oedd y wasg.

* * *

FE GAWN ddarlun o gyflwr poblogaeth weithfaol sir Fynwy sydd ychydig yn wahanol i'r darlun du a dynnir gan y Comisiynwyr os darllenwn ni draethodau Eiddil Ifor, T.E. Watkins, bardd lleol, tafarnwr, pwyswr yng ngweithfeydd Blaenafon, un o genfogwyr mudiad y Cymreigyddion a'r Iforiaid yng Ngwent ac awdur *Hanes Llanffwyst*.

Yn 1836 dyma Eiddil Ifor yn mynd ati i gystadlu yn un o gystadlaethau Cymreigyddion y Fenni ar gyfer Cylchwyl y flwyddyn honno.

Y testun oedd — teitl hirfaith — 'Effeithiau Moesawl a chynneddfawl a gafwyd ar drigolion Cymru drwy ddinoethiad eu dirfawr gyfoeth deliawl' neu, mewn geiriau eraill, yr effaith a gafodd y Chwyldro Diwydiannol ar y boblogaeth Gymraeg.

Mae Eiddil Ifor yn sôn am y modd y bu i ddyfodiad y gweithfeydd beri i'r boblogaeth weithfaol 'gynyddu mewn gwybodaeth'. Meddai,

> *Wedi sefydliad y gweithfeydd teimlwyd eu heffaith yn anadlu bywiogrwydd yn y cylchrediad ariannol. Bu hyn yn foddion i ... symud y rhwystrau a gwelwyd y trigolion yn Gymry ac yn Saeson yn cynyddu'n gyflym mewn gwybodaeth ... Nid oes braidd unrhyw genedl a gynyddodd lawer mwy na thrigolion Cymru yn y deng mlynedd ar hugain diwethaf ... Anodd ydyw cael un mewn ugain o dan ugain oed na all ddarllen yn tra rhugl.*

Yr Ysgolion Sul a'r Wasg oedd yn gyfrifol am y trawsnewid hwn, medde fo.

Ond yn ogystal â bod yn gefnogol iawn i'r wasg roedd Eiddil Ifor yn ymwybodol iawn o'i gwendidau hefyd. Yn 1829 roedd ef ac eraill wedi sefydlu cymdeithas fechan yn Nant-y-glo o'r enw Cymdeithas y Dynolwyr, ac un o amcanion y gymdeithas oedd ehangu cynnyrch y wasg Gymraeg.

Y bwriad ydoedd cyhoeddi gwybodaeth gyffredinol yn yr iaith Gymraeg — pamffledi ar gelfyddyd a masnach, peirianyddiaeth, gwyddoniaeth ac ati, fel bod y dosbarth gweithiol yn cael eu meithrin i ddarllen Cymraeg. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am Ddynolwyr Nant-y-glo ac mae'n anhebygol eu bod nhw wedi llwyddo i gyflawni eu hamcanion.

*I'w Barhau*